



CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

HAF 2025

**TGAU
CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3
3020U30-1**

Ynglŷn â'r cynllun marcio hwn

Pwrpas y cynllun marcio hwn yw sicrhau bod athrawon, dysgwyr a phartïon eraill â diddordeb yn deall y meini prawf asesu a ddefnyddiwyd i asesu'r asesiad penodol hwn.

Marciwyd yr asesiad hwn yn ôl meini prawf penodol mewn cyfres fyw ac mae'r cynllun marcio hwn yn adlewyrchu hynny. Cafodd y ddogfen ei phenderfynu'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn gynhadledd arholwyr. Derbyniodd tîm o arholwyr cymwys hyfforddiant penodol ar sut i gymhwyso'r cynllun marcio hwn. Bwriad y gynhadledd oedd sicrhau bod yr holl arholwyr yn dehongli ac yn cymhwyso'r cynllun marcio yn yr un modd. Efallai nad yw'n bosibl, nac yn briodol, i'r cynllun marcio hwn gynnwys pob amrywiad y gall ymgeisydd ei gyflwyno mewn ymateb. Fodd bynnag, yn ystod y gynhadledd arholwyr, derbyniodd arholwyr gyfarwyddyd ar sut i ddefnyddio eu barn broffesiynol i wobrwyo ymatebion amgen oedd yn ddilys. Derbyniwyd cyfarwyddyd hefyd yn y ddogfen hon ac adolygwyd ymatebion enghreifftiol.

Gan nad ydynt wedi gallu manteisio ar gymryd rhan yn y gynhadledd arholwyr, mae'n bosibl bod safbwynt athrawon, dysgwyr a defnyddwyr eraill yn mynd i fod yn wahanol o ran rhai manylion neu ddehongliad. Argymhellir yn gryf felly bod y cynllun marcio hwn yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr ag unrhyw gyfarwyddyd arall a gyhoeddwyd, fel enghreifftiau patrymol neu Ganllawiau i Athrawon. Y cynllun marcio hwn yw'r un terfynol. Ni fydd yn cael ei newid onid yw'n amlwg bod gwall yn y ddogfen. Mae'n adlewyrchu'r meini prawf a ddefnyddiwyd i asesu ymatebion ymgeiswyr yn ystod y gyfres fyw.

TGAU CYMRAEG AIL IAITH - UNED 3

CYNLLUNIAU MARCIO HAF 2025

ADRAN A

Cwestiwn 1

Mae cwricwlwm yr ysgol yn ddiddorol ac yn amrywiol, ond dydy pob dysgwr ddim yn mwynhau pob pwnc. Edrychwch ar farn dysgwyr Ysgol Bryn Awen.

Rhowch 5 pwnc yn y grid. Mae 3 o'r pynciau yn bositif ond dyd disgyblion ddim yn hoffi'r 2 bwnc arall. Rhowch y pynciau yn y golofn gywir.

Llenwi'r grid = **5 marc** (1 marc yr un)

😊	☹️
chwaraeon	celf
mathemateg	hanes
Sbaeneg laith – 0 marc	

Cwestiwn 2: Kerstin Cable

Cywiro proffil = **3 marc** (1 marc yr un)

Siarad sawl iaith?	6	⇒	8
Siarad Cymraeg	Nac ydy		Ydy / mae hi'n gallu
Dysgu nawr?	Rwseg		Mandarin

Cwestiwn 3: Cyrsiau iaith

Cyfateb yr iaith a'r faner = **3 marc** (1 marc yr un)

0 marc am ✓. RHAID NODI RHIFAU 1 – 3.

				
	1		2	3

Cwestiwn 4: Prawf-ddarllen 1 marc yr un = **10 marc**

1 marc am bob ateb cywir.

1. ydw
2. symudais
3. nheulu
4. Nghaernarfon / nghaernarfon
5. bwysig
6. ffrindiau / ffrind
7. mae'r
8. Ydy / ydy
9. â
10. Fyddwch / fyddwch

Cwestiwn 5: Cymraeg yn Siapan (**11 marc**)

(i) Dewis y lluniau priodol = 2 farc (1 marc yr un)

			
	✓	✓	

(ii) Dewis y gosodiad cywir = **2 farc**

Cafodd Takeshi Koike ei eni yng Nghymru.	
Aeth Takeshi Koike i'r coleg yng Nghymru.	✓
Aeth Takeshi Koike yn ôl i Siapan i ddysgu Ffrangeg.	

(iii) Dewis yr atebion cywir = 4 marc (1 marc yr un)

- (a) Siapan
- (b) Cymru
- (c) Y croeso + Pobl eraill yn siarad Cymraeg

(iv) Ymateb i neges Ryuichiro = 3 marc

(a) Ydych chi'n cytuno gyda'r neges?

Ydw / Nac ydw / ateb synhwyrol e.e. wrth gwrs / yn bendant = 1 marc

dwi'n cytuno / dwi'n anghytuno / dwi ddim yn cytuno RHAID SILLAFU RHAIN YN

GYWIR = 1 marc

(b) Rheswm – hyd at 2 farc. Rhaid i'r rheswm gyfateb i'r ateb yn rhan (a)

Rheswm sylfaenol

e.e. Mae Cymraeg yn fendigedig / achos mae'n hwyl / achos mae'r iaith Gymraeg yn fyw = 1 marc

Rheswm estynedig

e.e. Yn fy marn i mae siarad Cymraeg yn boblogaidd yng Nghymru / achos mae'n hwyl a diddorol / dwi ddim yn hoffi Cymraeg achos mae'n ddiflas = 2 farc

Cwestiwn 6

Rhesymau dros ddysgu Cymraeg = 9 marc

- (i) Pwyntiau positif o'r rhesymau – 1 marc am bob pwynt. Hyd at 3 marc

Mae'n hwyl / helpu gwneud ffrindiau newydd / hoffi siarad Cymraeg gyda ffrindiau / Yr Urdd / Rhywun yn y teulu yn siarad Cymraeg / siarad Cymraeg gyda'r teulu / gallu siarad Cymraeg / gallu bod yn heriol / byw yng Nghymru / Cymraeg ydy iaith Cymru / dylen ni ddysgu iaith ein gwlad / mae'n bwysig / mwynhau siarad Cymraeg / teithio Cymru gyda'r ysgol / teithio Cymru i Llangrannog / Glan-llyn

- (ii) Enw = Ffion / Elodie / Ben / Casper / Chris / Dai = 1 marc

- (iii) Rhowch reswm dros eich ateb. Hyd at 2 marc

Rheswm sylfaenol e.e. Rydw i'n hoffi Llangrannog hefyd. = 1 marc
Rheswm estynedig e.e. Yn sicr, mae siarad Cymraeg yn bwysig achos mae dwy iaith gyda ni. (2 marc)

- (iv) Cynnig cyngor i fachgen newydd (hyd at 3 marc)

Rhaid i'r cynnwys fod yn berthnasol i ddysgu Cymraeg. Mae 3 marc ar gael ar gyfer **3 phwynt gwahanol.**
e.e. Yn fy marn i mae dysgu Cymraeg yn wych / Mae pawb yn hoffi dysgu Cymraeg yn yr ysgol / Mae Miss James yn dysgu Cymraeg ac mae hi'n neis iawn / Rydyn ni'n chwarae gemau Cymraeg / Bydd trip Llangrannog ym mis Mawrth / Does dim eisiau poeni / Byddwch chi'n iawn / Pobl Cymru yn garedig /

Cwestiwn 7

Cyfieithu = 10 marc

Marc am bob gair / ymadrodd

1 marc ychwanegol yn bosibl am unrhyw 2 o'r geiriau canlynol:

pawb / te (neu) coffi / brechdanau / hwyl / Byddwch / dwyieithog / cost / profiad / newydd / pam

Dyma'r atebion posibl ar gyfer yr ymadroddion gwahanol.

1. Croeso i bawb / Croeso
2. Bydd
3. te, coffi a brechdanau / bara / bwyd
4. Bore / bora
5. llawn hwyl / llawer o hwyl
6. Byddwch
7. yn ddwyieithog
8. Does dim cost / Dim cost / Am ddim / fydd dim
Mae dim cost – 0 marc
9. Profiad / sgil / cyfle newydd
10. Pam lai! / Beth amdani! / Pam (d)dim / dim problem

ADRAN B

Cwestiwn 8 Y cwrs digidol (11 marc)

- (i) Sut mae'r cwmni yn helpu sicrhau bod y cwrs yn bosibl i unrhyw berson ifanc? Meddyliwch am 2 beth. Hyd at 2 farc

Cwrs yn yr ardal / dim cost / bwyd ar gael / yn ystod hanner tymor / sawl opsiwn / pobl ifanc yn hoffi dewis / cael ei rannu gyda pobl ifanc / ar ôl ysgol / hysbyseb yn dweud 'pobl ifanc' (1 marc yr un, hyd at 2 farc)

- (ii) Sut mae'r cwmni yn helpu sicrhau bod ysgolion yn hapus i hyrwyddo'r cwrs?

1 marc am unrhyw un o'r canlynol

Sicrhau bod yr ysgol yn hapus / yn ystod hanner tymor / manylion cysylltu yno / yn bosibl i gysylltu gyda chwestiynau / sgiliau digidol yn bwysig / dim cost i'r ysgol / mynd i helpu pobl ifanc / i bobl ifanc 14 – 16 oed / llawer o fanylion ar gael

- (iii) Ydy'r cwrs yn swnio fel cyfle anhygoel yn eich barn chi?

Ydy / Nac ydy / ateb synhwyrol e.e. yn bendant, dim o gwbl = 1 marc

Ydw / Oes = 0 marc

- (iv) Rhewch reswm – hyd at 2 farc RHAID I'R RHESWM GYFATEB I RAN (iii) e.e. Dw i'n mwynhau sgiliau digidol (1 marc)
Hoffwn i ddysgu mwy am ffotograffiaeth a ffilmio (2 farc)

- (v) Pa mor bwysig ydy technoleg heddiw yn eich barn chi?

Ateb synhwyrol = 1 marc e.e. pwysig iawn / Dw i'n dwlu ar dechnoleg / Mae'n wastraff amser / mae'n iawn

- (vi) Sut ydych chi'n defnyddio technoleg bob dydd? Rhewch 2 enghraifft. Hyd at 4 marc

Rhaid cael 2 bwynt. Gellir gwobrwyo 4 marc os yw'r ymgeisydd wedi rhoi 2 enghraifft o fewn 1 pwynt bwled.

e.e. Dw i'n defnyddio fy ffôn symudol bob dydd / Rydw i'n ffonio dad ac yn siarad gyda fy ffrindiau ar Snapchat / Fel arfer, rydyn ni'n gwrando ar gerddoriaeth ar Alexa yn y bore / teledu.

Cwestiwn 9 (18 marc)

(i) Llenwi ffurflen (13 marc)

- MANYLION CYSYLLTU: owsg93@yahoo.co.uk = 1 marc
07283660185 = 1 marc
- OED: 14 / un deg pedwar = 1 marc
- YSGOL: Brynawen = 1 marc
- DIDDORDEBAU – 1 marc yr un - hyd at 2 farc gwylio ffilmiau / helpu efo'r theatr / gweithio gyda cyfrifiaduron / gwylio ffilmiau / sgiliau digidol / animeiddio / byd ffilmiau
- ASTUDIO TGCh YN YR YSGOL: Ydy = 1 marc
- RHESYMAU DROS YMGEISIO = 2 farc yr un - hyd at 4 marc mwynhau gweithio efo cyfrifiaduron / diddordeb yn y byd ffilm / hoffi animeiddio / rhieni yn hapus / eisiau astudio graffeg / eisiau astudio animeiddio yn y coleg / cwrs yn ei helpu / does dim cost / dysgu sgiliau newydd / gweithio mewn tîm / cwrs yn swnio'n ddiddorol / cwrs yn swnio'n wych / helpu efo theatr leol
- Mrs Ella Perkins / Mr Callum Anderson = 1 marc

Llofnod: dim marc

Dyddiad heddiw = 1 marc Rhaid cael dyddiad. Nid oes rhaid defnyddio geiriau. Mis yn unig – 0 marc

(ii) Mae sgiliau digidol yn bwysig heddiw. Ysgrifennwch nodyn at y pwyllgor yn esbonio hyn a gofyn iddyn nhw drefnu ail gwrs yn y dyfodol. (hyd at 5 marc)

Bydd eisiau cynnwys:

- *cyfarchiad (1) e.e. Shwmae / Bore da*
- *nodi pwysigrwydd sgiliau digidol heddiw (2)*
- *gofyn am ail gwrs sgiliau digidol (1)*
- *cyfiawnhau'r cwrs (1)*

ADRAN C

Cwestiwn 10 : Ysgrifennu (20 marc)

Naill ai: Blog yn trafod targed Llywodraeth Cymru

Neu: Llythyr at y cyngor lleol

Naill ai

Targed y llywodraeth ydy cael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Rydych chi'n ysgrifennu blog bob wythnos ac felly rydych chi'n ymateb i'r targed yma yn eich blog nesaf. Rydych chi eisiau pwysleisio rhan pob person ifanc i gyrraedd y targed.

Rhaid i chi gynnwys:

- teitl i'r blog a'ch rheswm dros ysgrifennu (hyd at 2 farc)
- manteision dysgu Cymraeg (hyd at 3 marc) Gwobrwyo mae'n + ansoddair unwaith e.e. mae'n hwyl
- barn ar darged y llywodraeth (hyd at 2 farc)
- her i bobl ifanc Cymru (hyd at 2 farc)
- diwedd priodol = 1 marc Hwyl = 0 marc

Neu

Mae cynnig cyrsiau am ddim i bobl ifanc mor bwysig heddiw er mwyn dysgu sgiliau newydd. Yn dilyn llwyddiant y cwrs sgiliau digidol, mae'r cyngor lleol wedi addo cynnig cyrsiau gwahanol y flwyddyn nesaf ond maen nhw eisiau syniadau, er enghraifft, cwrs drama. Nid oes rhaid i bob cwrs fod yn academiaidd. Rydych chi'n ysgrifennu llythyr at y cyngor yn awgrymu cyrsiau l'r dyfodol.

Rhaid i chi gynnwys:

- eich enw a'ch rheswm dros ysgrifennu = 1 marc
- pwysigrwydd cyrsiau / gweithgareddau i bobl ifanc (hyd at 3 marc)
- syniadau ar gyfer cyrsiau newydd (hyd at 3 marc)
- manylion ymarferol i'w hystyried e.e. lleoliad, dyddiadau (hyd at 2 farc)
- diwedd priodol = 1 marc

Cwestiwn 10

CYNNWYS		MYNEGIAINT	
Band 5 9-10 marc	- Cynllun rhagorol ac adeiladwaith grefftus - Amrywiaeth eang o syniadau a barn - Mynegi barn yn hyderus gan ymresymu'n berthnasol a chynnig tystiolaeth i gefnogi barn - Gwaith gafaelgar sy'n creu naws ac awyrgylch pwrpasol	Band 5 9-10 marc	- Cyfathrebu'n hyderus iawn gydag elfen gref o gywirdeb. Defnydd cywir o'r 6 Rheol Digyfnawid. - Defnyddio ystod eang ac amrywiol o ymadroddion cwestiynau a phatrymau brawddegol - Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gyson gywir - Sillafu ac atalnodi cywir
Band 4 6-8 marc	- Cynllunio amlwg a dilyniant priodol - Peth amrywiaeth o ran syniadau a barn - Mynegi barn yn weddol hyderus gan roi rhesymau dilys i gefnogi barn - Gwaith diddorol gydag ymdrech i greu naws ac awyrgylch pwrpasol	Band 4 6-8 marc	- Cyfathrebu'n rhwydd gydag elfen amlwg o gywirdeb. Defnydd cywir o fwyafrif o'r 6 Rheol Digyfnawid. - Defnyddio ystod o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol - Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn gywir ar y cyfan - Sillafu ac atalnodi eithaf cywir
Band 3 3-5 marc	- Ôl cynllunio a dilyniant gweddol naturiol - Digonol o ran syniadau a barn - Mynegi barn yn ddigon effeithiol gan roi rhesymau digonol ar y cyfan - Gwaith gweddol ddiddorol sydd yn llwyddo i gadw ein diddordeb	Band 3 3-5 marc	- Cyfathrebu'n weddol rhwydd gyda'r iaith yn weddol gywir ar y cyfan - Defnyddio ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol sylfaenol - Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) yn weddol gywir - Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn gywir
Band 2 1-2 marc	- Ychydig o dystiolaeth o gynllunio ac ambell ddarn yn datblygu yn synhwyrol - Arwynebol iawn o ran syniadau a barn - Mynegi barn yn sylfaenol iawn gan gynnig ambell reswm syml - Gwaith gweddol ddiddorol	Band 2 1-2 marc	- Cyfathrebu'n ddealladwy gyda pheth cywirdeb iaith gyda'r elfennau syml yn unig - Defnydd cyfyngedig o ymadroddion, cwestiynau a phatrymau brawddegol - Defnyddio ffurfiau berfol (amser a pherson) gyda pheth cywirdeb. Peth cywirdeb o'r ffurfiau berfol (amser a pherson) gan ddibynnu'n ormodol ar y presennol - Ymdrech i sillafu ac atalnodi yn weddol gywir
Band 1 0 marc	Ymateb amhriodol neu heb ymateb	Band 1 0 marc	Mynegiant amhriodol neu heb ymateb